Hyfforddi i ddod yn Swyddog Prawf

Y Cymhwyster Prawf Proffesiynol (PQiP) - Canllaw i'r Broses Recriwtio

Cyn ichi ddechrau, gwnewch yn siŵr eich bod yn gymwys i wneud cais. Mae'n rhaid bod gennych yr hawl i weithio yn y DU a'ch bod yn meddu ar gymhwyster Lefel 5, fel yr amlinellir yn traintobeaprobationofficer.com/eligibility. Os oes gennych unrhyw geisiadau ar y gweill neu unrhyw geisiadau a gafodd eu gwrthod mewn perthynas â rhaglenni eraill, ni fydd hyn yn effeithio ar eich cymhwysedd. Sylwch, os ydych chi wedi cofrestru ar gwrs PQiP neu gwrs PQF gyda'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (NPS) yn flaenorol, bydd eich cais yn cael ei adolygu. Os ydych chi'n bodloni'r gofynion hyn, yna cewch fynd ati i wneud cais.

Llenwch y ffurflen gais ar-lein yn **www.traintobeaprobationofficer.com** Bydd angen i chi benderfynu ym mha leoliad yr hoffech weithio. Mae'r 4 rhanbarth NPS fel a ganlyn: Llundain, Canolbarth Lloegr, De Ddwyrain Lloegr a De Orllewin Lloegr.

1 Y ffurflen gais a dewis lleoliad gwaith

Byddwch yn cael eich sgrinio gan ein tîm recriwtio a gofynnir ichi gwblhau nifer o brofion i wirio p'un a ydych yn gymwys i gymryd rhan yn y rhaglen hyfforddiant.

Gwahoddiad i ymweld â'r Ganolfan Asesu

Yn amodol ar nifer y llefydd sydd ar gael ar y rhaglen yn y lleoliad o'ch dewis a phasio'r broses sgrinio, byddwch yn cael eich gwahodd i ymweld â chanolfan asesu. Cynhelir y rhain yn genedlaethol.

2 Profion Sgrinio

Yn y ganolfan asesu, byddwch yn cael eich cyfweld gan staff NPS a gofynnir i chi gwblhau amryw o ymarferion asesu. Mae'n rhaid i ymgeiswyr allanol ac ymgeiswyr mewnol ddod â nifer o ddogfennau gyda hwy at ddibenion fetio a diogelwch. Darperir rhagor o wybodaeth am hyn. Mae'n bwysig eich bod yn dilyn y cyfarwyddiadau.

3 Y Ganolfan Asesu

Mae'r Gwasanaethau a Rennir yn gyfrifol am weithgareddau gweinyddol Adnoddau Dynol a byddant yn prosesu Cliriad Diogelwch a phroses fetio gan ddefnyddio'r dogfennau a ddarparwyd gennych yn y ganolfan asesu. Bydd y broses hon yn para am tua 8 wythnos, ond ni fydd yn effeithio ar eich dyddiad dechrau. Gall methu â chydymffurfio a cheisiadau a wneir gan y tîm fetio, neu methu â phasio'r proses fetio, olygu y bydd eich cynnig cyflogaeth yn cael ei dynnu'n ôl neu fyddwch yn cael eich diswyddo. Rhaid cynnal proses fetio gydag ymgeiswyr allanol ac ymgeiswyr mewnol.

4 Fetio

Yn amodol ar nifer y llefydd sydd ar gael yn y lleoliad o'ch dewis, ac ennill y sgôr gofynnol yn y ganolfan asesu, byddwch yn cael cynnig cyflogaeth fel Swyddog Gwasanaeth Prawf a bydd y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn noddi eich Cymhwyster Prawf Proffesiynol (PQiP) Lefel 6.

5 Cynnig Cyflogaeth

6 Dyddiad Dechrau, y Cytundeb Cyflogaeth a'r Ffurflen Gweithiwr Newydd

Bydd **Rheolwr Hyfforddi Rhanbarthol (DTM) o NPS** yn cysylltu â chi i'ch hysbysu am bwy fydd eich rheolwr llinell a dyddiad cychwyn ac amser cychwyn eich swydd. Bydd y **Gwasanaethau a Rennir** yn anfon cytundeb cyflogaeth atoch a byddant yn gofyn ichi lenwi ffurflen gweithiwr newydd, gan nodi eich manylion banc.

7 Y Gwasanaeth Porth Asesu (GAS)

Bydd NPS yn cynnal y GAS ar eich rhan, er mwyn gwirio eich cymhwyster Lefel 5 ac unrhyw fodiwlau dysgu eraill rydych chi wedi'u cwblhau. Efallai y gofynnir ichi ddarparu rhagor o wybodaeth neu dystiolaeth os bydd angen. Bydd y rhain yn cael eu hadolygu'n fewnol, ac yna bydd eich DTM yn gallu cadarnhau os byddwch yn cael eich cofrestru ar y rhaglen 15 mis ynteu'r rhaglen 21 mis.

8 Cysylltu cyn eich diwrnod cyntaf

Bydd eich DTM, eich Aseswr a Thiwtor Practis (PTA) a'ch Rheolwr Llinell (SPO) yn gallu ateb y nifer helaeth o gwestiynau am hyfforddiant a rôl swyddog gwasanaeth prawf. Bydd y Gwasanaethau a Rennir yn gallu ymateb i unrhyw ymholiadau ynghylch tâl a chytundebau. Gweler tudalen 2 am ragor o fanylion cyswllt defnyddiol.

9 Eich diwrnod cyntaf

Croeso i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol. Ar eich diwrnod cyntaf, bydd yn rhaid i chi ddod i'r lleoliad o'ch dewis gyda cherdyn adnabod gyda llun a chwrdd â'ch rheolwr llinell.

Sylwch: *Nid yw pasio'r profion sgrinio o reidrwydd yn golygu y byddech yn cael eich gwahodd i ganolfan asesu. Nifer cyfyngedig o lefydd sydd ar gael yn y canolfannau asesu, ac efallai bydd rhai ymgeiswyr yn cael eu rhoi ar restr aros. Gall ymgeisydd fod ar restr aros ar ôl ymweld â chanolfan asesu hefyd, oherwydd bod nifer cyfyngedig o lefydd ar gael ar y cwrs PQiP.*

Hyfforddi i ddod yn Swyddog Prawf

Y Cymhwyster Prawf Proffesiynol (PQiP) - Canllaw i'r Broses Recriwtio